

**GORCHYMYN CYNGOR GWYNEDD**

**(GWAHARDD A CHYFYNGU AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD A DIDDYMU)**

**(ARDAL ARFON RHIF 30) 2026**

Mae Cyngor Gwynedd (y cyfeirir ato wedi hyn fel “y Cyngor”) trwy ymarfer ei bwerau o dan Adrannau 1, 2, 4, 32, 35, 45, 46, 47, 49, 51, 63A a 124 o a Rhan IV o Atodlen 9 o Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984 (“Deddf 1984”), fel y newidiwyd ac y Ddeddf Rheolaeth Trafnidiaeth 2004 a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori gyda Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984 drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

**RHAN I**

**ENWI A DEHONGLI**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar yr 11eg dydd o Fai, 2026 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwaharddiadau, Cyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd a Diddymu) (Ardal Arfon Rhif 30) 2026.
2. Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio lle bo'r cyd-destun yn golygu rhywbeth gwahanol mae i'r ymadroddion a ganlyn yr ystyron a roddir iddynt yma:  
  
mae gan “*Ambiwlans*” yr un ystyr a'r hyn sy'n y Ddeddf Ecséis a Chofrestru Cerbydau 1994; golyga “*Asiant Awdurdodedig*” y contractwr gwasanaethau parcio a benodwyd gan neu a awdurdodwyd yn briodol i weithredu ar ran y Cyngor i ddibenion goruchwylio a gorfodi'r Gorchymyn hwn;  
  
mae “*Man Parcio Awdurdodedig*” yn golygu unrhyw Fan Parcio ar y ffordd a awdurdodwyd neu a ddynodwyd gan y Gorchymyn hwn;  
  
mae ystyr “*Bws*” yr un fath a'r hyn sydd yn Adran 1 Deddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981;  
  
golyga “*Arosfan Bws*” unrhyw ran o'r gerbydlon a fwriadwyd i Fysiau aros, sydd wedi ei chynnwys ac wedi ei dangos gan farciau ar y ffordd ac yn ymgorffori'r geiriau “Arosfan Bws” sydd yn cydymffurfio gyda Rheoliadau 2016;

mae "*Clirffordd Arosfan Bws*" yn golygu unrhyw ran o'r Gerbydlon a fwriadwyd ar gyfer bysiau sy'n aros, sydd wedi ei chynnwys ac a ddangosir gan farciau ffordd ag arwydd sy'n cydymffurfio gyda Rheoliadau 2016;

mae "*Cerbydlon*" yn golygu ffordd sy'n briffordd neu wedi ei chynnwys yn rhan ohoni (heblaw am drac beic) y mae gan y cyhoedd hawl tramwy i gerbydau deithio;

mae gan "*Swyddog Gorfodi Sifil*" yr un ystyrion ac sydd yn cael ei ddiffinio yn Adran 76(1) o'r Deddf 2004

mae i "*Cerbyd Person Anabl*" yr un ystyrion ac sydd yn y Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Eithriadau i Bobl Anabl) (Cymru) 2000;

mae "*Bathodyn Person Anabl*" a "*Disg Parcio*" yn golygu'r bathodyn a'r disg a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 fel y diwygiwyd gan

Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) (Diwygio)

2014 neu yn fathodyn sy'n gweithredu o dan y rheoliadau yma fel pe byddai'n Fathodyn Person Anabl;

golyga "*Gyrrwr*", mewn perthynas â cherbyd sy'n aros mewn lle parcio neu ar ffordd neu ddarn o ffordd, y person oedd yn gyrru'r cerbyd ar yr adeg y cafodd ei adael yn y Man Parcio hwnnw neu'r ffordd neu ran o'r ffordd;

mae "*Deddfiad*" yn golygu unrhyw ddeddfiad, boed yn gyhoeddus cyffredinol neu yn lleol, ac mae'n cynnwys unrhyw orchymyn, is-ddeddf, rheol, rheoliad, cynllun neu unrhyw offeryn arall sydd mewn grym drwy rinwedd Deddfiad a bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw Ddeddfiad yn cael ei ystyried fel cyfeiriad at y Deddfiad hwnnw fel y newidiwyd, defnyddiwyd, cydgrynhowyd, ail-ddeddfwyd neu sydd mewn grym drwy rinwedd unrhyw Ddeddfiad dilynol;

mae "*Nwyddau*" yn golygu nwyddau neu lwyth o unrhyw ddisgrifiad ac yn cynnwys pecynnau post o unrhyw fath;

mae "*Cerbyd Nwyddau*" yn golygu cerbyd modur sydd wedi ei adeiladu neu ei addasu i gludo Nwyddau ac nad yw yn ddim mwy na 5.30 metr o hyd neu 2.25 metr o uchder;

mae "*Cerbyd Haeni*" yn golygu'r diffiniad a rhoddwyd dan Adran 38 Ddeddf Cymalau Heddlu Trefol 1847

mae gan "*Dyfais Rhwystro Symud*" yr un ystyron ac ag yn Adran 104(9) o'r Ddeddf 1984

mae "*Llwytho*" yn cynnwys Llwytho neu Ddadlwytho Nwyddau i neu o gerbyd;

mae gan "*Feic Modur*" a "*Cerbyd yr Anabl*" yr un ystyron ag yn Adran 136 o Ddeddf 1984;

mae gan "*Cerbyd Modur*" yr un ystyr a'r hyn sydd yn Adran 136 o Ddeddf 1984;

golyga "*Perchennog*", mewn perthynas â'r cerbyd yr unigolyn sy'n cadw'r cerbyd. Wrth benderfynu pwy oedd Perchennog y cerbyd ar unrhyw adeg fe ragdybir mai'r Perchennog yw'r unigolyn y cafodd y cerbyd ei gofrestru yn ei enw ar y pryd o dan y Ddeddf Ecséis Cerbydau a Chofrestru 1994;

mae "*Man Parcio*" yn golygu unrhyw Fan Parcio a ddangosir ar Gerbydlon gan farciau yn unol â Rheoliadau 2002, ar ffordd a ddynodwyd gan orchymyn a wnaed neu sydd a'r effaith fel pe tai wedi ei wneud o dan Ddeddf 1984;

mae "*Tâl Cosb*" a "*Tâl Cosb Gstyngol*" yn golygu tâl sydd wedi ei osod gan y Cyngor o dan ddarpariaeth adran 78 o'r Ddeddf 2004 a Chanllawiau 2013 sydd i'w talu i'r Cyngor o fewn 28 diwrnod yn dechrau gyda dyddiad y rhybudd, neu 14 diwrnod mewn achosion o Dâl Cosb Ostyngol yn dilyn cyhoeddi'r Rhybudd Tâl Cosb;

golyga "*Rhybudd Tâl Cosb*" neu "*RhTC*" rybudd a rhoddwyd neu a gyflwynwyd gan Swyddog Gorfodaeth Sifil yn unol â darpariaethau adran 78 o'r Ddeddf 2004;

mae "*Oriau a Ganiateir*" yn golygu'r oriau a nodwyd ar y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn;

mae "*Cynlluniau*" yn golygu'r cynlluniau yn yr Atodlen sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn;

mae "*Safle Perthnasol*" o safbwynt: -

- (a) Bathodyn Person Anabl, yn golygu
  - (i) yn achos cerbyd gyda borden flaen neu banel ffasgia, bydd y bathodyn yn cael ei arddangos arno fel bod rhan 1 o'r bathodyn yn glir o du allan i'r cerbyd; neu
  - (ii) yn achos cerbyd heb forden flaen neu banel ffasgia, bydd y bathodyn yn cael ei arddangos mewn safle amlwg ar y cerbyd fel bod rhan 1 o'r bathodyn yn glir o du allan i'r cerbyd;
- (b) mae Disg Parcio Person Anabl, yn golygu bod yr ochr sy'n dangos y chwarter awr pan ddechreuodd yr amser aros i'w weld yn glir o du allan i'r cerbyd;
- (c) mae Cerdyn Parcio Preswylydd a Thystysgrif Hepgor, yn golygu
  - (i) yn achos cerbyd gyda borden flaen neu banel ffasgia, bydd y Cerdyn Parcio yn cael ei arddangos arno fel bod rhan o'r Cerdyn i'w weld yn glir o du allan i'r cerbyd; neu
  - (ii) yn achos cerbyd heb forden flaen neu banel ffasgia, bydd y Cerdyn Parcio yn cael ei arddangos mewn safle amlwg ar y cerbyd fel bod y Cerdyn i'w weld yn glir o du allan i'r cerbyd;

mae "*Safle Penodol*" yn golygu cerbyd a adawyd mewn Man Parcio yn ystod yr Oriau a Ganiateir yn unol â darpariaethau blaenorol y Gorchymyn hwn sy'n achosi iddo sefyll:-

- (a) yn achos y Man Parcio mewn perthynas â lle bo darpariaethau arbennig ynglŷn â'r modd mae cerbyd yn sefyll yn y lle hwnnw wedi eu pennu yn y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn fe fyddant yn unol â'r darpariaethau hynny;
- (b) yn achos unrhyw Fan Parcio arall -
  - (i) os nad yw'r Man Parcio ar stryd unffordd, fod yr ochr chwith neu ochr agosaf y cerbyd ger ochr chwith y Gerbydlon;
  - (ii) bod y pellter rhwng ochr y Gerbydlon ag olwyn agosaf y cerbyd ddim mwy na 300 milimetr;
- (c) fel bod pob rhan o'r cerbyd o fewn cyfyngiadau'r Man Parcio;

(ch) nad oes unrhyw ran o'r cerbyd yn rhwystro unrhyw fodd cerbydol o fynediad i mewn neu allan o unrhyw eiddo ger ochr y ffordd lle mae'r cerbyd yn aros.

mae "*Rheng Dacsi*" yn golygu ardal o'r Gerbydlon sydd wedi ei chynnwys o fewn ac wedi ei dangos gan farciau ffordd sy'n cydymffurfio gyda'r Rheoliadau 2016;

golyga "*Oriau Penodol*" yr oriau a nodwyd ar gyfer manau parcio neu ddadlwytho ar y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn;

mae gan "*System Telathrebu*" yr un ystyr a'r hyn sydd yn Neddf Telathrebu 1984;

mae "*Rheoliadau 2016*" yn golygu'r Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol 2016;

mae "*Canllawiau 2013*" yn golygu'r Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Canllawiau ar Lefelau Taliadau) (Cymru) 2013/1969;

mae "*Deddf 1984*" yn golygu Deddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984;

mae "*Deddf 2004*" yn golygu Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004

mae "*Arwydd Traffig*" yn golygu arwydd o unrhyw faint, lliw a math a bennwyd neu a awdurdodwyd yn unol â neu a'r effaith fel pe byddai wedi ei bennu neu ei awdurdodi yn unol ag Adran 64 o Ddeddf 1984.

mae "*Tystysgrif Hepgor*" yn golygu tystysgrif a gyflwynwyd yn briodol ar ran y Cyngor i ddibenion Erthygl 25 sy'n caniatáu i gerbyd penodol i aros mewn amgylchiadau penodol ar ddarn neu ddarnau o ffordd lle y byddai'r aros i'r cerbyd hwnnw fel arall yn cael ei wahardd;

3. Ac eithrio lle dywedir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen rifedig yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sydd a'r rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

4. Bydd y gwaharddiadau a osodwyd gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol i ac nid yn amharu ar unrhyw gyfyngiad, gwaharddiad neu ofyniad a osodwyd gan unrhyw Rheoliadau neu Orchmynion a wnaed neu fel pe byddent wedi eu gwneud o dan Ddeddf 1984, neu gan neu o dan unrhyw Ddeddfiad arall.

5. Oddieithr lle fo'r gwrthwyneb yn cael ei nodi, bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn i:
  - (a) y Gorchymyn hwn neu Orchymyn arall yn cael eu dehongli fel cyfeiriad i'r Gorchymyn hwn neu, fel bo'n berthnasol, orchymyn arall, gan y gall fod hwn wedi neu y bydd o bryd i'w gilydd yn cael eu newid, amrywio neu ychwanegu atynt;
  - (b) Statud neu Reoliad yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at Statud neu Reoliadau o'r fath gan y gall eu bod wedi neu y byddant o bryd i'w gilydd yn cael eu newid neu eu hail-ddeddfu.
6. Mae Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i ddehongli'r Gorchymyn hwn fel mae'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol ac fel pe byddai ar gyfer dibenion Adran 21 o'r Ddeddf honno fod y Gorchymyn hwn yn Ddeddf Seneddol, a phe byddai'r Gorchymynion a ddiddymwyd gan Erthygl 41 yn Ddeddfau Seneddol a ddiddymwyd trwy hynny.

## **RHAN II**

### **GWAHARDD A CHYFYNGU AROS**

7. Oddieithr fel y darparwyd yn Erthyglau 8 i 12 o'r Gorchymyn hwn nid fydd unrhyw unigolyn, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl o'r heddlu yn ei wisg neu Swyddog Gorfodi Sifil, yn achosi nac yn caniatáu i unrhyw gerbyd i aros ar y ffyrdd neu ochrau'r ffyrdd a nodwyd ac am y cyfnodau a nodwyd (neu yn achos ffordd neu ochr y ffordd lle fo aros cyfyngedig yn cael ei Ganiatáu, heblaw yn ystod y cyfnod a nodwyd) ar y Cynlluniau.
8. Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu i Ganiatáu i unrhyw gerbyd i aros cyn belled â'i fod yn angenrheidiol i'r diben i alluogi Nwyddau i gael eu llwytho neu eu dadlwytho o'r cerbydau ar y ffyrdd a nodwyd ac am y cyfnodau a nodwyd ar y Cynlluniau:

**AR YR AMOD** oni bai fod hysbysiad yn cael ei roi pedair awr ar hugain ymlaen llaw i'r Cyngor a bod Tystysgrif Hepgor wedi ei derbyn, ni fydd unrhyw gerbyd yn aros ar unrhyw ffordd neu ochr y ffordd lle fo Llwytho wedi ei gyfyngu yn ystod y cyfnodau cyfyngu fel y nodwyd ar y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn:

9. (1) Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd i aros ar unrhyw un o'r ffyrdd, ddarn o'r ffordd neu ar ochrau'r ffordd a nodir yno cyn belled a bo hi'n angenrheidiol i alluogi:
- (a) unigolyn i fynd i gerbyd neu ddod oddi arno;
  - (b) fel y gellir defnyddio'r cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall, mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithgareddau a ganlyn, sef:-
    - (i) gwaith adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel;
    - (ii) cael gwared ag unrhyw rwystr i drafnidiaeth;
    - (iii) cynnal, gwella neu ailadeiladu'r ochrau darnau ffyrdd uchod; a
    - (iv) gosod, codi, newid neu atgyweirio ar dir yn ymyl yr ochrau darnau ffyrdd unrhyw garthffos neu brif bibell, pibell neu offer i gyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw lein cyfarpar telathrebu fel a ddiffinnir yn Neddf Telathrebu 1984;
  - (c) fel y gellir defnyddio'r cerbyd yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu ymgymwrwr dŵr, ymgymwrwr carthffosiaeth neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â hawliau neu ddyletswyddau statudol, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall;
  - (ch) cerbyd darparwr gwasanaeth cyffredinol (fel a ddiffinir yn adran 4(3) a (4) o Ddeddf y Gwasanaethau Post 2000) i'w defnyddio i'r diben o ddsbarthu a/neu gasglu'r post;
  - (d) fel y gellir rhoi petrol, olew dŵr neu aer yn y cerbyd o unrhyw garej a leolir ar neu ger y darnau ffyrdd neu ochrau'r ffyrdd uchod;
  - (dd) i alluogi'r cerbyd i gael ei ddefnyddio i ddibenion y frigâd dân, Ambiwlans neu'r heddlu;

- (e) mewn unrhyw achos lle fo'r person sy'n rheoli'r cerbyd,
    - (i) angen iddo stopio gan y gyfraith;
    - (ii) yn orfodol iddo stopio i osgoi damwain, neu
    - (iii) ei fod yn cael ei atal rhag symud ymlaen oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth;
  - (f) os yw'r cerbyd yn arddangos yn y Safle Perthnasol Dystysgrif Hepgor ddilys ac yn aros yn unol â'r telerau a'r amodau a nodir gan y Dystysgrif ddywededig.
- (2) Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu Ganiatáu i unrhyw gerbyd
- (a) i aros ar le parcio awdurdodedig; neu
  - (b) os yw'n dacsï, aros ar reng dacsï swyddogol.
10. Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i gerbyd person anabl sy'n arddangos yn y Safle Perthnasol, Fathodyn Person Anabl a Disg Parcïo, lle mae'r gyrrwr, neu berson arall â chyfrifoldeb dros y cerbyd wedi nodi amser cychwyn y cyfnod aros, i aros ar ochrau neu ddarnau o'r ffyrdd y cyfeirir atynt yn y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn am gyfnod heb fod yn fwy na thair awr (nad yw'n gyfnod wedi'i wahanu gan egwyl o lai nag awr oddi wrth gyfnod aros blaenorol gan yr un cerbyd ar yr un ochrau darnau ffyrdd neu ar yr un ochr ar yr un diwrnod):
- AR YR AMOD** o safbwynt y ffyrdd a nodir yn y Cynlluniau pan fo Llwytho yn cael ei ganiatáu ar bob amser neu wedi ei gyfyngu i amseroedd penodol bydd y cyfnod hwn i gyd o fewn y cyfnod y caniateir Llwytho.
11. Ni fydd dim yn Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i gerbyd person anabl sy'n arddangos yn y safle perthnasol Fathodyn Person Anabl i aros ar ochr y ffyrdd a nodwyd ar y Cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn lle bo aros wedi ei gyfyngu yn cael ei ganiatáu:

**AR YR AMOD** os yw defnydd y Man Parcio wedi ei gyfyngu i ddsbarth penodol o gerbyd bod y cerbyd sy'n arddangos y Bathodyn Person Anabl hefyd o'r dosbarth a nodwyd.

12. Ni fydd dim yn Erthygl 7 i'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i Yrrwr Cerbyd Gwasanaeth Cyhoeddus i achosi i'r cerbyd hwnnw i aros ar Arosfan Bws gydnabyddedig.

### **RHAN III**

#### **AWDURDODI A DEFNYDDIO MANNAU PARCIO AR Y STRYD**

13. (1) Awdurdodir defnyddio'r rhannau o'r ffyrdd a nodwyd ar y Cynlluniau yn amodol ar ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn isod, fel Mannau Parcio i'r dosbarthiadau hynny o gerbydau, mewn safleoedd o'r fath ac ar y dyddiau hynny ac yn ystod yr oriau a nodwyd ar y Cynlluniau.
- (2) Ni fydd dim ym mharagraff (1) o'r Erthygl hon yn cyfyngu pŵer y Cyngor neu gwnstabl o'r heddlu yn ei wisg, i atal rhwystr ar y strydoedd, drwy orchymyn ar adeg pan fo unrhyw ymdaith gyhoeddus, gorfoledd neu oleuadau, neu lle fo'r strydoedd yn llawn neu'n debygol o gael eu rhwystro, i gau unrhyw Fan Parcio.
- (3) Ni fydd dim ym mharagraff (1) o'r Erthygl hon yn cyfyngu pŵer y Cyngor neu unigolyn a ddynodwyd gan y Cyngor i atal defnyddio Mannau Parcio a Ganiateir ar ddarn o ffordd neu unrhyw ran ohoni pan fo ef/hi yn ystyried fod ataliad o'r fath yn rhesymol angenrheidiol.
14. Oddieithr fel y darparwyd yn Erthygl 24 ac a nodwyd yn y cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn mae Man Parcio yn cael ei ddisgrifio fel bod ar gael i gerbydau o ddsbarth penodol neu mewn Safle Penodol, ni fydd Gyrrwr y cerbyd yn caniatáu iddo aros yn y Man Parcio hwnnw -
- (a) oni bai ei fod o ddsbarth penodol; neu
- (b) mewn lleoliad arall i'r hyn a nodwyd.
15. (1) Oddieithr fel y darparwyd yn Erthygl 24 o'r Gorchymyn hwn, ni fydd Gyrrwr y cerbyd yn caniatáu iddo aros mewn Man Parcio am fwy na'r uchafswm cyfnod a ganiateir i aros

a nodir mewn perthynas â'r Man Parcio hwnnw fel a nodwyd ar y Cynlluniau.

- (2) Oddieithr fel y darparwyd yn Erthygl 24 o'r Gorchymyn hwn, pan fo cerbyd wedi gadael Man Parcio ar ôl aros yno ni fydd Gyrrwr y cerbyd yn caniatáu iddo aros eto ar y Man Parcio hwnnw yn ystod y cyfnod amser ar ôl iddo adael a nodir i'r Man Parcio hwnnw sydd yn y Cynlluniau.
16. Ni fydd Gyrrwr cerbyd yn defnyddio Man Parcio -
- (a) fel ag yn afresymol i atal mynediad i unrhyw eiddo sydd ger y ffordd, neu ddefnydd y ffordd gan unrhyw berson arall, neu fel ag i fod yn niwsans;
- (b) wrth atal rhwystro'r strydoedd bydd y Cyngor drwy Orchymyn a wnaed ar achlysur unrhyw ymdaith gyhoeddus, gorfoledd neu oleuadau, neu lle fo'r strydoedd yn llawn neu'n debygol o gael eu rhwystro yn cau'r Man Parcio gan arddangos hysbysiad o'r cau ar neu ger y Man Parcio.
17. Bydd Gyrrwr Cerbyd Modur sy'n defnyddio Man Parcio yn diffodd y peiriant cyn gynted ag y bo'r cerbyd yn ei le yn y man parcio, a ni fydd yn tanio'r peiriant ac eithrio i symud y cerbyd neu i adael y Man Parcio.
18. Oddieithr fel y darparwyd yn Erthygl 24 o'r Gorchymyn hwn ni fydd unrhyw berson yn defnyddio cerbyd, tra bydd mewn Man Parcio, mewn cysylltiad â gwerthu neu hurio ei arbenigedd neu wasanaethau.
19. Ni fydd unrhyw berson yn defnyddio cerbyd tra bydd mewn Man Parcio mewn cysylltiad â chynnal a chadw a thrwsio'r cerbyd ac eithrio os yw'r cerbyd wedi torri i lawr i alluogi'r cerbyd i gael ei symud o'r Man Parcio.
20. Bydd cerbyd a ddefnyddir i gludo person anabl sy'n arddangos yn y Safle Perthnasol Fathodyn Person Anabl a Disg Parcio a adewir mewn Man Parcio yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn eithriedig rhag unrhyw gyfyngiad ar amser:
- AR YR AMOD** fod defnydd y Man Parcio wedi ei gyfyngu i ddsbarth penodol o gerbyd a bod y cerbyd sy'n arddangos Bathodyn Person Anabl hefyd o'r dosbarth a bennwyd.

21. Yn ddarostyngedig i'r profiso sydd yma, pan fo cerbyd yn cael ei adael mewn Man Parcio yn groes i unrhyw un o'r darpariaethau sydd yn Erthyglau 14, 15 neu 16 o'r Gorchymyn hwn bydd person a awdurdoddir ar ran y Cyngor yn gallu symud y cerbyd neu drefnu iddo gael ei symud ymaith o'r Man Parcio.

**AR YR AMOD** pan fo cerbyd yn aros mewn Man Parcio yn groes i ddarpariaeth Erthygl 14(b) o'r Gorchymyn hwn, gall person a awdurdoddir ar ran y Cyngor newid neu achosi i newid safle'r cerbyd er mwyn i'w leoliad gydymffurfio gyda'r ddarpariaeth honno.

22. Bydd unrhyw berson sy'n symud cerbyd neu yn newid ei leoliad drwy rinwedd yr Erthygl flaenorol olaf o'r Gorchymyn hwn wneud hynny drwy lusgo neu yrru'r cerbyd neu mewn modd arall yr ystyria sydd ei angen a gall gymryd mesurau o'r fath mewn perthynas â'r cerbyd ag y creda sy'n angenrheidiol i'w alluogi i'w symud neu newid ei leoliad fel bo'r achos.

23. Pan fo unigolyn a awdurdodwyd gan y Cyngor yn symud neu yn gwneud trefniadau i symud cerbyd ymaith o Fan Parcio drwy rinwedd Erthygl 21 o'r Gorchymyn hwn, bydd ef/hi yn gwneud y trefniadau sydd yn rhesymol angenrheidiol i ddal y cerbyd yn ddiogel.

24. Ni fydd y darpariaethau sydd yn Erthygl 14, 15 a 18 o'r Gorchymyn hwn a'r cyfyngiadau a osodwyd gan Erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys i unrhyw Gerbyd Hacni wrth aros mewn Rheng Dacsi.

25. Serch darpariaethau blaenorol y Gorchymyn hwn, gall y Cyngor yn ôl ei ddisgresiwn gyflwyno Tystysgrif Hepgor i ganiatáu i gerbyd penodol aros ar ffordd neu mewn Man Parcio yn ystod oriau gweithredu unrhyw gyfyngiadau neu waharddiad i'r gwrthwyneb.

26. Gellir canslo Tystysgrif Hepgor ar unrhyw adeg ar ddisgresiwn y Cyngor yn unig a bydd wedyn yn peidio â bod yn ddilys ar unwaith.

27. Bydd hysbysiad o ganslo o'r fath yn cael ei anfon drwy'r post i ddeilydd y dystysgrif i unrhyw gyfeiriad, y cred y Cyngor yw cyfeiriad yr unigolyn hwnnw, a bydd y dystysgrif yn cael ei ildio ar unwaith i'r Cyngor.

## RHAN IV

### MYND YN GROES I'R GORCHYMYN

28. (1) Os caiff cerbyd ei adael mewn Man parcio yn ystod Oriau a Ganiateir neu ar unrhyw ffordd neu ddarn o ffordd yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn, bydd Tâl Cosb yn daladwy a/neu gellir symud y cerbyd o'r lleoliad hwnnw.
- (2) Yn achos cerbyd lle mae Tâl Cosb yn daladwy, bydd Rhybudd Tâl Cosb yn cael ei gyflwyno gan y Swyddog Gorfodi Sifil yn unol ag adran 78 o'r Ddeddf 2004 .
- (3) Yn achos cerbyd sydd wedi cael Tâl Cosb, dyletswydd y Swyddog Gorfodi Sifil fydd gosod Rhybudd mewn lle amlwg ar y cerbyd, a bydd yn rhybudd sy'n cynnwys y manylion a ganlyn:
- (a) y rhesymau pam fod y Swyddog Gorfodi Sifil yn credu bod y Tâl Cosb yn daladwy mewn perthynas â'r cerbyd;
  - (b) swm y Tâl Cosb sydd yn daladwy;
  - (c) bod rhaid talu'r Tâl Cosb cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sydd yn cychwyn ar ddyddiad y Rhybudd;
  - (ch) os bydd y Tâl Cosb yn cael ei dalu cyn pen diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sydd yn cychwyn ar ddyddiad y Rhybudd, bydd swm y Tâl Cosb yn gostwng yn ôl yr hyn a nodir
  - (d) os na thelir y Tâl Cosb cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod, bydd yn bosibl cyflwyno Rhybudd i'r Perchennog gan yr Awdurdod Lleol i'r person yr ymddengys sydd berchen y cerbyd; a'r
  - (dd) cyfeiriad lle dylid talu neu anfon tâl y Tâl Cosb.
- (4) Nodir ar y Rhybudd Tâl Cosb y bydd y Tâl Cosb yn cael ei dalu ddim hwyrach na 4.30 p.m. ar y pedwerydd diwrnod ar ddeg ar ôl diwrnod cyhoeddi'r Rhybudd Tâl Cosb ond os bydd y pedwerydd diwrnod ar ddeg yn disgyn ar ddiwrnod pan fydd yr adran dan sylw

ar gau, bydd y cyfnod talu'r Tâl Cosb i'r Cyngor yn cael ei ymestyn hyd 4.30 p.m. y diwrnod llawn nesaf pan fydd yr adran dan sylw ar agor.

- (5) Os na thelir y Tâl Cosb o fewn 28 diwrnod o'r Rhybudd i'r Perchennog bydd yn bosibl codi'r tâl 50% drwy gyflwyno Tystysgrif Tâl.
- (6) Gall parhau i beidio â thalu arwain at ddyfarniad yn y llys Sirol yn erbyn y Perchennog, i alluogi'r Cyngor adennill y taliadau dyledus.
- (7) Ni fydd gan unrhyw un heblaw gydag awdurdod y Perchennog neu'r unigolyn sydd yn gyfrifol am y cerbyd, neu'r Cyngor, neu o dan eu hawdurdod, hawl i dynnu'r Rhybudd Tâl Cosb sydd wedi'i osod ar gerbyd yn unol â darpariaethau'r Erthygl hon.
- (8) Os bydd cerbyd yn cael ei adael ar ôl cael Tâl Cosb, gall Swyddog Gorfodi Sifil yn ei wisg neu unigolyn sydd yn gweithio yn ôl ei gyfarwyddyd osod dyfais rhwystro symud a rhybudd yn unol â gofynion adran 79 o'r Ddeddf 2004 a dylid ond rhyddhau'r cerbyd o'r ddyfais ar ôl derbyn y Tâl Cosb, neu yn ôl fel y digwydd, tâl cosb gostyngol, ynghyd â ffi rhyddhau o'r fath ag y gall fod y Cyngor ei angen.
- (9) Pan fydd Swyddog Gorfodi cSifil wedi symud cerbyd neu beri iddo gael ei symud yn unol â pharagraff (1) yr Erthygl hon:
  - (a) bydd ef/hi yn gofalu bod y cerbyd yn cael ei gadw yn ddiogel;
  - (b) bydd gan y Cyngor hawl i adennill unrhyw gostau gan y person sydd yn gyfrifol am y fath gostau o ran symud, cadw neu gael gwared â'r cerbyd fel a bennir ganddo o bryd i'w gilydd;
  - (c) bydd darpariaethau Deddf 1984 yn berthnasol i gael gwared â cherbyd o'r fath a symudir gan neu ar ran y Cyngor yn unol â'r Erthygl hon.

## **RHAN V**

### **DILYSRWYDD**

29. Os bydd llys, yr Adran Drafnidiaeth, y Gwasanaeth Dyfarnu Parcio Cenedlaethol neu'r Ganolfan Gorfodaeth Traffig yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu na ellir ei orfodi, ni fydd datganiad o'r fath yn annilysu gweddill y Gorchymyn hwn.

## **RHAN VI**

### **AMRYWIO A DIDDYMU GORCHMYNION TRAFNIDIAETH**


30. (1) Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwaharddiad a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) Gorchymyn Cydgrynhoi 2007 fel ei diwygiwyd. Bydd Gorchymyn 2007 â'r effaith fel pe byddai'r Cynlluniau sy'n atodol i'r Gorchymyn hwn sef rhifau BY52, BY53, BV88, BV89 a BW88 yn cymryd lle'r Cynlluniau hynny oedd â'r un Adran Côt Ardal yng Ngorchymyn 2007.
- (2) Yn yr holl agweddau eraill cadarnheir Gorchymyn 2007.

Rhoddyd o dan Sêl Gyffredin Cyngor Gwynedd ar y 27<sup>aw</sup> dydd o Ebrill, Dwy Fil a Dau Ddeg Chwech.



CÔD ARDAL: BY53  
AREA CODE: BY53

RHIF ADOLYGIAD Y DDALEN -  
SHEET REVISION NUMBER -  
DALEN YN WEITHREDOL O -  
SHEET ACTIVE FROM -



Gorchymyn Cyngor Gwynedd  
(Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd)  
Gorchymyn (Ardal Arfon Rhif 30) 2026

The Gwynedd Council Order  
(Prohibition and Restriction of Waiting and Street Parking Places)  
(Arfon Area No 30) 2026



Cyngor Gwynedd  
Pennaeth Adran Amgylchedd - Head of Environment Department  
Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad - Transport and Countryside Service  
Swyddfa'r Cyngor - Council Offices  
Caernarfon  
Gwynedd LL55 1SH

Cynhyrwyd o fapiau 1:1250 yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans 100023387.  
Mae atgynhyrchu diawdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil.


Produced from Ordnance Survey 1:1250 mapping with permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright and database rights 2026 Ordnance Survey 100023387. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.

45,771  
SN



CÔD ARDAL: BV89  
AREA CODE: BV89

RHIF ADOLYGIAD Y DDALEN -  
SHEET REVISION NUMBER -  
DALEN YN WEITHREDOL O -  
SHEET ACTIVE FROM -



Gorchymyn Cyngor Gwynedd  
(Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd)  
Gorchymyn (Ardal ArfonRhif 30) 2026

The Gwynedd Council Order  
(Prohibition and Restriction of Waiting and Street Parking Places)  
Arfon Area No 30) 2026



Cyngor Gwynedd  
Pennaeth Adran Amgylchedd - Head of Environment Department  
Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad - Transport and Countryside Service  
Swyddfa'r Cyngor - Council Offices  
Caernarfon  
Gwynedd LL55 1SH


Cynhyrwyd o fapiau 1:1250 yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron a hysbysu  
cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans 100023387.  
Mae atgynhyrchu diawdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil.

Produced from Ordnance Survey 1:1250 mapping with  
permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright and database rights 2026 Ordnance Survey 100023387.  
Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may  
lead to prosecution or civil proceedings.

45,773

CÔD ARDAL: BW88  
 AREA CODE: BW88

RHIF ADOLYGIAD Y DDALEN -  
 SHEET REVISION NUMBER -  
 DALEN YN WEITHREDOL O -  
 SHEET ACTIVE FROM -



Gorchymyn Cyngor Gwynedd  
 (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd)  
 Gorchymyn (Ardal Arfon Rhif 30) 2026

The Gwynedd Council Order  
 (Prohibition and Restriction of Waiting and Street Parking Places)  
 (Arfon Area No 30) 2026



Cyngor Gwynedd  
 Pennaeth Adran Amgylchedd - Head of Environment Department  
 Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad - Transport and Countryside Service  
 Swyddfa'r Cyngor - Council Offices  
 Caernarfon  
 Gwynedd LL55 1SH

Cynhyrchwyd o fapiau 1:1250 yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans 100023387.  
 Mae atgynhyrchu diawdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil.

Produced from Ordnance Survey 1:1250 mapping with permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright and database rights 2026 Ordnance Survey 100023387. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.

45,774

**THE CYNGOR GWYNEDD**

**(PROHIBITION AND RESTRICTION OF WAITING AND STREET PARKING PLACES**

**AND REVOCATION) (ARFON AREA NO. 30) ORDER 2026**

Cyngor Gwynedd (hereinafter referred to as “the Council”) in exercise of the powers conferred by Sections 1, 2, 4, 32, 35, 45, 46, 47, 49, 51, 63A, 124 and Part IV of Schedule 9 of the Road Traffic Regulation Act 1984, as amended and the Traffic Management Act 2004 of all other powers them enabling and after consultation with the Chief Officer of Police in accordance with Part III of Schedule 9 to 1984 Act hereby makes the following Order:-

**PART I**

**CITATION AND INTERPRETATION**

1. This Order shall come into operation on the 11<sup>th</sup> day of May, 2026 and may be cited as the Cyngor Gwynedd (Prohibition and Restriction of Waiting and Street Parking Places and Revocation) (Arfon Area No. 30) Order 2026.
